



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2010 Rhif 2713 (Cy.229)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**LLES ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a  
Ffermir (Cymru) (Diwygio)  
2010**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3070 (Cy.264)) er mwyn rhoi ei heffaith i Gyfarwyddeb y Cyngor 2007/43/EC sy'n gosod rheolau gofynnol ar gyfer diogelu ieir a gedwir i gynhyrchu cig (OJ Rhif L 182, 12.7.07, t.19).

Dyma'r diwygiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007.

Diwygir rheoliad 2 (darpariaeth ddiffiniadau a dehongli), gan gynnwys mewnosod diffiniadau o "iâr fwyta a fegir yn gonfensiynol" (sy'n cwmpasu ieir a gedwir i gynhyrchu cig, ac eithrio'r rheini ar ddaliadau o lai na 500 o ieir neu sy'n cadw stoc bridio yn unig, sydd ar ddeorfeydd, neu a fegir mewn cytiau, neu sy'n ieir buarth neu wedi'u cynhyrchu'n organig), "gweithredydd busnes bwyd" a "dwysedd stocio" (rheoliad 3).

Diwygir rheoliad 5 (dyletswyddau ychwanegol ar bersonau sy'n gyfrifol) i ddarparu ei bod yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol gydymffurfio â Rhan 2 o Atodlen 5A newydd (rheoliad 4).

Fe ychwanegir rheoliad 5A newydd sy'n rhoi ei heffaith i Ran 3 o'r Atodlen 5A newydd (rheoliad 5).

Mae methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 2 o Atodlen 5A yn dramgwydd, a diwygir rheoliad 7 (tramgwyddau), i ddarparu ar gyfer tramgwydd mewn perthynas â mynd yn groes i baragraff 14(2) o Atodlen 5A (rheoliad 6).

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 No. 2713 (W.229)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL WELFARE**

**The Welfare of Farmed Animals  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2010**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/3070 (W.264)) to implement Council Directive 2007/43/EC laying down minimum rules for the protection of chickens kept for meat production (OJ No L 182, 12.7.07, p.19).

The amendments to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007 are as follows.

Regulation 2 (definitions and interpretation provision) is amended, including the insertion of definitions of "conventionally reared meat chicken" (which covers chickens kept for meat production, except for those on holdings with fewer than 500 chickens or with only breeding stocks, which are on hatcheries, or which are barn-reared, free range or organically-produced), "food business operator" and "stocking density" (regulation 3).

Regulation 5 (additional duties on persons responsible) is amended to provide that persons responsible for conventionally reared meat chickens are required to comply with Part 2 of a new Schedule 5A (regulation 4).

A new regulation 5A is added which gives effect to Part 3 of the new Schedule 5A (regulation 5).

Failure to comply with the requirements of Part 2 of Schedule 5A is an offence, and regulation 7 (offences) is amended to provide for an offence in relation to breach of paragraph 14(2) of Schedule 5A (regulation 6).

Diwygir Atodlen 1 (amodau cyffredinol y mae'n rhaid cadw anifeiliaid fferm odanynt) i gynnwys darpariaethau ynghylch ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol (rheoliad 7).

Ychwanegir Atodlen 5A, sy'n gosod amodau ychwanegol sy'n ymwneud ag ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol (rheoliad 8).

Gwnaed asesiad effaith rheoleiddiol ar yr effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei gael ar gostau busnes ac mae ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Schedule 1 (general conditions under which farmed animals must be kept) is amended to include provisions relating to conventionally reared meat chickens (regulation 7).

A Schedule 5A is added, which sets out additional conditions that relate to conventionally reared meat chickens (regulation 8).

A regulatory impact assessment of the effect of this instrument on the costs of business has been prepared and is available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2010 Rhif 2713 (Cy.229)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**LLES ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a  
Ffermir (Cymru) (Diwygio)  
2010**

*Gwnaed* 9 Tachwedd 2010  
*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru at ddibenion Deddf Lles Anifeiliaid 2006(1) ac maent wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(3).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau y cyfeirir atynt yn adran 12(6) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Yn unol ag adran 61(2) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 12(1), (2) a (3) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010; deuant i rym trannoeth y diwrnod y'u gwneir.

---

(1) 2006 p. 45.

(2) 1972 p. 68.

(3) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

**2010 No. 2713 (W.229)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL WELFARE**

**The Welfare of Farmed Animals  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2010**

*Made* 9 November 2010  
*Coming into force in accordance with  
regulation 1*

The Welsh Ministers are the appropriate national authority in relation to Wales for the purposes of the Animal Welfare Act 2006(1) and are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union(3).

The Welsh Ministers have consulted the persons referred to in section 12(6) of the Animal Welfare Act 2006.

In accordance with section 61(2) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 12(1), (2) and (3) of the Animal Welfare Act 2006 and section 2(2) of the European Communities Act 1972.

**Title and commencement**

1. The title of these Regulations is the Welfare of Farmed Animals (Wales) (Amendment) Regulations 2010; they come into force on the day after the day on which they are made.

---

(1) 2006 c. 45.

(2) 1972 c. 68.

(3) S.I. 2005/2766. By virtue of sections 59(1) and 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers.

## Diwygio Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007

2. Diwygir Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007(1) yn unol â rheoliadau 3 i 8.

### Diwygio rheoliad 2 (diffiniadau a dehongli)

3.–(1) Yn rheoliad 2(1)–

(a) yn y manau priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder–

"mae i "gweithredydd busnes bwyd" yr ystyr a roddir i ("*food business operator*") gan Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2);

ystyr "iâr fwyta a fegir yn gonfensiynol" ("*conventionally reared meat chicken*") yw anifail o'r rhywogaeth *Gallus gallus* a gedwir i gynhyrchu cig, ac eithrio–

(a) un sydd ar ddaliad gyda llai na 500 anifail o'r fath neu gyda stoc bridio yn unig o anifeiliaid o'r fath;

(b) un sydd ar ddeorfa;

(c) un y gellir defnyddio'r term "Megir yn helaeth dan do (mewn cytiau)", ("*Extensive indoor (barn-reared)*"), "Iâr fuarth" ("*Free range*"), "Iâr fuarth – dull traddodiadol" ("*Traditional free range*") neu "Iâr fuarth – dull hollol rydd" ("*Free range – total freedom*") o fewn ystyr pwynt (b), (c), (d) neu (e) o Atodiad V i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 parthed y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod(3); neu

(ch) un a fagwyd yn organig yn unol â Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig ac sy'n dirymu Rheoliad (EEC) Rhif 2092/91(4);"

(b) yn y diffiniad o "llaesodr" ("*litter*") ar ôl y geiriau "ieir dodwy" mewnosoder "ac ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol" ac yn lle'r geiriau "galluogi'r ieir" rhodder y geiriau "galluogi'r adar hynny";

(1) O.S. 2007/3070 (Cy.264).

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.02, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.09, t.14).

(3) OJ Rhif L 157, 17.6.08, t.46, y gwnaed diwygiadau a chywiriadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) OJ Rhif L 189, 20.7.07, t.1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 967/2008 (OJ Rhif L 264, 3.10.08, t.1).

## Amendment of the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007

2. The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007(1) are amended in accordance with regulations 3 to 8.

### Amendment of regulation 2 (definitions and interpretation)

3.–(1) In regulation 2(1)–

(a) after the definition of "calf", insert–

""conventionally reared meat chicken" ("*iâr fwyta a fegir yn gonfensiynol*") means an animal of the species *Gallus gallus* that is kept for meat production, other than one–

(a) that is on a holding with fewer than 500 such animals or with only breeding stocks of such animals;

(b) that is on a hatchery;

(c) in relation to which the term "Extensive indoor (barn-reared)" ("*Megir yn helaeth dan do (mewn cytiau)*"), "Free range" ("*Iâr fuarth*"), "Traditional free range" ("*Iâr fuarth- dull traddodiadol*") or "Free range – total freedom" ("*Iâr fuarth- dull hollol rydd*") can be used within the meaning of point (b), (c), (d) or (e) of Annex V to Commission Regulation (EC) No 543/2008 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 1234/2007 as regards the marketing standards for poultrymeat(2); or

(d) that is organically reared in accordance with Council Regulation (EC) No 834/2007 on organic production and labelling of organic products and repealing Regulation (EEC) No 2092/91(3);

"food business operator" ("*gweithredydd busnes bwyd*") has the meaning given by Article 3 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4);"

(b) in the definition of "litter" ("*llaesodr*") after the words "laying hens" insert "and conventionally reared meat chickens" and replace the words "enabling the hens" with the words "enabling those birds";

(1) S.I. 2007/3070 (W.264).

(2) OJ No L 157, 17.6.08, p.46, to which there are amendments and corrections not relevant to these Regulations.

(3) OJ No L 189, 20.7.07, p.1, as amended by Council Regulation (EC) No 967/2008 (OJ No L 264, 3.10.08, p.1).

(4) OJ No L 31, 1.2.02, p.1, as last amended by Regulation (EC) No 596/2009 (OJ No L 188, 18.7.09, p.14).

(c) ar ôl y diffiniad o "ceidwad" ("*keeper*"), mewnosoder—

"ystyr "dwysedd stocio" ("*stocking density*") mewn perthynas ag unrhyw gwt lle cedwir ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, yw cyfanswm pwysau yn fyw yr ieir sy'n bresennol yn y cwt ar yr un pryd i'r m<sup>2</sup> o'r lle y gellir ei ddefnyddio;" ac

(ch) yn y diffiniad o "lle y gellir ei ddefnyddio" ("*usable area*")—

- (i) ar ôl ("*usable area*") mewnosoder ", mewn perthynas ag ieir sy'n dodwy, ",
- (ii) ar y diwedd, mewnosoder ", neu, mewn perthynas ag ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, unrhyw le dan laesodr y gall yr ieir gael ato ar unrhyw adeg".

(2) Yn rheoliad 2(2) ar ôl is-baragraff (a), mewnosoder—

"(aa) mewn perthynas ag ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, Cyfarwydddeb y Cyngor 2007/43/EC yn gosod rheolau gofynnol ar gyfer diogelu ieir a gedwir i gynhyrchu cig(1)".

#### **Diwygio rheoliad 5 (dyletswyddau ychwanegol ar bersonau sy'n gyfrifol am ddofednod, ieir dodwy, lloi, gwartheg, moch neu gwningod)**

4.–(1) Yn rheoliad 5(1)(a), ar ôl "Atodlenni 2 i 4", mewnosoder "ac ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol".

(2) Yn rheoliad 5(1), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol gydymffurfio â Rhan 2 o Atodlen 5A;".

(3) Ar ôl rheoliad 5(3), mewnosoder—

"(4) Mae Rhan 1 o Atodlen 5A yn effeithiol."

#### **Mewnosod rheoliad 5A**

5. Ar ôl rheoliad 5 mewnosoder—

**"Monitro a gwaith dilynol yn y lladd-dy**

**5A.** Mae Rhan 3 o Atodlen 5A yn effeithiol."

#### **Diwygio rheoliad 7 (tramgwyddau)**

6.–(1) Yn rheoliad 7 ail rifer y ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1).

(2) Ar ôl paragraff (1) (wedi ei ail rifo felly) ychwaneger—

"(2) Mae gweithredydd busnes bwyd sydd, heb awdurdod cyfreithiol neu esgus cyfreithiol, yn methu â chydymffurfio â dyletswydd ym mharagraff 14(2) o Atodlen 5A, yn cyflawni tramgwydd."

(c) after the definition of "pig" ("*mochyn*") insert—

""stocking density" ("*dwysedd stocio*") means, in relation to any house in which conventionally reared meat chickens are kept, the total live weight of chickens which are present in the house at the same time per m<sup>2</sup> of usable area;" and

(d) in the definition of "usable area" ("*lle y gellir ei ddefnyddio*")—

- (i) after "means", insert ", in relation to laying hens,",
- (ii) at the end, insert ", or, in relation to conventionally reared meat chickens, a littered area accessible to the chickens at any time".

(2) In regulation 2(2) after sub-paragraph (a), insert—

"(aa) in relation to conventionally reared meat chickens, Council Directive 2007/43/EC laying down minimum rules for the protection of chickens kept for meat production(1)".

#### **Amendment of regulation 5 (additional duties on persons responsible for poultry, laying hens, calves, cattle, pigs or rabbits)**

4.–(1) In regulation 5(1)(a), after "Schedules 2 to 4", insert "and conventionally reared meat chickens".

(2) In regulation 5(1), after sub-paragraph (b) insert—

"(ba) conventionally reared meat chickens must comply with Part 2 of Schedule 5A;".

(3) After regulation 5(3), insert—

"(4) Part 1 of Schedule 5A has effect."

#### **Insertion of regulation 5A**

5. After regulation 5 insert—

**"Monitoring and follow-up at the slaughterhouse**

**5A.** Part 3 of Schedule 5A has effect."

#### **Amendment of regulation 7 (offences)**

6.–(1) In regulation 7 renumber the existing provision as paragraph (1).

(2) After paragraph (1) (as so renumbered) add—

"(2) A food business operator who, without lawful authority or excuse, fails to comply with a duty in paragraph 14(2) of Schedule 5A, commits an offence."

(1) OJ Rhif L 182, 12.7.07, t.19.

(1) OJ No L 182, 12.7.07, p.19.

**Diwygio Atodlen 1 (amodau cyffredinol y mae'n rhaid cadw anifeiliaid a ffermir odanynt)**

7. Yn Atodlen 1–

- (a) ym mharagraff 2(3) ar ôl paragraff (a) mewnosoder–
  - "(aa) yn achos ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, paragraff 11(1) a (2) o Atodlen 5A;"
- (b) ym mharagraff 5, cyn y geiriau "Rhaid gofalu" mewnosoder "Heb ragfarnu paragraff 11(3) o Atodlen 5A";
- (c) ym mharagraff 7–
  - (i) yn is-baragraff (b)(ii), hepgorer "neu" yr ail waith y digwydd;
  - (ii) yn is-baragraff (b)(iii), hepgorer "neu";
  - (iii) ar ôl is-baragraff (b)(iii), mewnosoder–
    - "(iiia) yn achos ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, paragraff 11(1) a (2) o Atodlen 5A; neu".

**Mewnosod Atodlen 5A (amodau ychwanegol sy'n gymwys mewn perthynas ag ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol)**

8. Ar ôl Atodlen 5 i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, mewnosoder yr Atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Amendment of Schedule 1 (general conditions under which farmed animals must be kept)**

7. In Schedule 1–

- (a) in paragraph 2(3) after paragraph (a) insert–
  - "(aa) in the case of conventionally reared meat chickens, paragraph 11(1) and (2) of Schedule 5A;"
- (b) in paragraph 5, before "Any animals" insert "Without prejudice to paragraph 11(3) of Schedule 5A";
- (c) in paragraph 7–
  - (i) in sub-paragraph (b)(ii), omit "or" the second time it occurs;
  - (ii) in sub-paragraph (b)(iii), omit "or";
  - (iii) after sub-paragraph (b)(iii), insert–
    - "(iiia) in the case of conventionally reared meat chickens, paragraph 11(1) and (2) of Schedule 5A; or".

**Insertion of Schedule 5A (additional conditions that apply in relation to conventionally reared meat chickens)**

8. After Schedule 5 to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007, insert the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

9 Tachwedd 2010

9 November 2010

## YR ATODLEN

## SCHEDULE

Rheoliad 8

Regulation 8

Mewnosod Atodlen 5A i Reoliadau Lles  
Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007

Insertion of Schedule 5A to the Welfare of  
Farmed Animals (Wales) Regulations 2007

Ar ôl Atodlen 5, mewnosoder—

After Schedule 5, insert—

### "ATODLEN 5A

### "SCHEDULE 5A

Rheoliadau 5 a 5A

Regulations 5 and 5A

Amodau ychwanegol sy'n gymwys mewn  
perthynas ag ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol

Additional conditions that apply in relation  
to conventionally reared meat chickens

### RHAN 1

### PART 1

#### Dehongli

#### Interpretation

#### Dehongli

#### Interpretation

1. Yn yr Atodlen hon—

1. In this Schedule—

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am ieir neu sydd â gofal dros ieir yn nhermau contract neu yn ôl y gyfraith p'un ai ar sail barhaol yntau dros dro;

"chicken" ("*iâr*") means a conventionally reared meat chicken;

ystyr "iâr" ("*chicken*") yw iâr fwyta a fegir yn gonfensiynol;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person responsible for or in charge of chickens in terms of contract or by law whether on a permanent or temporary basis;

mae i "milfeddyg swyddogol" yr un ystyr ag sydd i ("*official veterinarian*") yn Rheoliad 854/2004;

"official veterinarian" ("*milfeddyg swyddogol*") has the same meaning as it has in Regulation 854/2004;

ystyr "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(1);

"Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*") means Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(1);

ystyr "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(2).

"Regulation 854/2004" ("*Rheoliad 854/2004*") means Regulation (EC) No 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(2).

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.04, t.55 (y fersiwn a gywirwyd), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 558/2010 (OJ Rhif L 159, 25.6.10, t 18).

(2) OJ Rhif L 139, 30.4.04, t.206 (y fersiwn a gywirwyd), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 505/2010 (OJ Rhif L 149, 15.6.10, t.1).

(1) OJ No L 139, 30.4.04, p.55 (corrected version), as last amended by Commission Regulation (EU) No 558/2010 (OJ No L 159, 25.6.10, p 18).

(2) OJ No L 139, 30.4.04, p.206 (corrected version), as last amended by Commission Regulation (EU) No 505/2010 (OJ No L 149, 15.6.10, p.1).

## Amodau ychwanegol cyffredinol

**Hyfforddiant**

2.–(1) Rhaid i geidwad ddal tystysgrif a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Erthygl 4(3) neu (4) o Gyfarwydddeb y Cyngor 2007/43/EC(1) (tystysgrifau cwblhau cyrsiau hyfforddiant neu brofiad cyfatebol).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, o bryd i'w gilydd ac mewn modd a ystyrir ganddynt yn briodol, gyhoeddi rhestr o dystysgrifau a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-baragraff (1).

**Terfynau dwysedd stocio**

3.–(1) Oni fo is-baragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r dwysedd stocio beidio â bod yn uwch na 33 cilogram i'r m<sup>2</sup> o'r lle y gellir ei ddefnyddio.

(2) Caniateir dwysedd stocio uwch na 33 cilogram a hyd at 39 cilogram i'r m<sup>2</sup> o'r lle y gellir ei ddefnyddio os cydymffurfir â gofynion paragraff 5.

**Hysbysiad o'r dwysedd stocio**

4.–(1) Rhaid i geidwad sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu o'r dwysedd stocio arfaethedig ar gyfer pob cwt y bwriedir cadw ieir ynddo ar ddwysedd uwch na 33 cilogram i'r m<sup>2</sup> o'r lle y gellir ei ddefnyddio, ac o unrhyw newid diweddarach i'r dwysedd hysbysedig hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad fod yn y cyfryw ddull a ffurf ag y dichon fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid rhoi hysbysiad (gan gynnwys hysbysiad o unrhyw newid) o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn bod stocio ar y dwysedd hwnnw neu ddwysedd wedi newid yn digwydd.

(4) Yn y paragraff hwn ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sydd yn ŵyl y Banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(2).

**Y gofynion ar gyfer dwyseddau stocio uwch**

5. Gofynion y paragraff hwn yw bod rhaid i'r ceidwad—

- (a) cynnal a chadw ac, os gofynnir iddo wneud hynny, peri bod dogfennau ar gael i Weinidogion Cymru yn y cwt yn disgrifio'n fanwl y systemau cynhyrchu, ac yn benodol yn rhoi gwybodaeth ar fanylion technegol y cwt a'r offer ynddo, gan gynnwys—

## General additional conditions

**Training**

2.–(1) A keeper must hold a certificate recognised by the Welsh Ministers for the purposes of Article 4(3) or (4) of Council Directive 2007/43/EC(1) (certificates of completion of training courses or equivalent experience).

(2) The Welsh Ministers must publish from time to time, in such a way as the Welsh Ministers consider appropriate, a list of certificates recognised by the Welsh Ministers for the purposes of sub-paragraph (1).

**Stocking density limits**

3.–(1) Unless sub-paragraph (2) applies, the stocking density must not exceed 33 kilograms per m<sup>2</sup> of usable area.

(2) A stocking density in excess of 33 kilograms and up to 39 kilograms per m<sup>2</sup> of usable area may be used if the requirements of paragraph 5 are complied with.

**Notification of stocking density**

4.–(1) A keeper must ensure that the Welsh Ministers are notified of the intended stocking density of each house where it is intended to keep chickens at a density in excess of 33 kilograms per m<sup>2</sup> of usable area, and of any subsequent change to that notified density.

(2) Notification must be made in such manner and form as the Welsh Ministers may require.

(3) Notification (including notification of any change) must be given at least 15 working days before stocking at that density or changed density takes place.

(4) In this paragraph "working day" means a day other than a Saturday or a Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(2).

**Requirements for higher stocking densities**

5. The requirements of this paragraph are that the keeper must—

- (a) maintain and, on request, make available to the Welsh Ministers, documentation in the house giving a detailed description of the production systems, in particular information on technical details of the house and its equipment, including—

(1) OJ Rhif L182, 12.7.07, t.19.

(2) 1971 p. 80.

(1) OJ No L182, 12.7.07, p.19.

(2) 1971 c. 80.



- (i) plan o'r cwt gan gynnwys mesurau'r arwynebeddau y mae'r ieir yn eu meddiannu;
  - (ii) gwyntylliad ac unrhyw system oeri a chynhesu berthnasol (gan gynnwys eu lleoliad), a phlan gwyntyllu, sy'n dangos paramedrau ansawdd aer yr anelir atynt (megis y llif aer, cyflymder yr aer a thymheredd);
  - (iii) systemau bwydo a dyfrio (a'u lleoliadau);
  - (iv) systemau larwm ac wrth gefn os digwydd i unrhyw offer sy'n hanfodol er iechyd a lles yr ieir dorri i lawr;
  - (v) math y llawr a'r llaesodr a ddefnyddir fel rheol; a
  - (vi) cofnodion o archwiliadau technegol o'r systemau gwyntyllu a'r systemau larwm;
- (b) peri bod y dogfennau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) yn cael eu cadw'n gyfredol;
  - (c) sicrhau bod yna offer gwyntyllu ym mhob cwt ac, os oes angen, systemau gwresogi ac oeri sydd wedi'u dylunio, wedi'u hadeiladu ac yn cael eu gweithredu yn y fath fodd–
    - (i) fel nad yw'r dwysedd o amonia yn uwch na 20 rhan i'r filiwn ac nad yw dwysedd y carbon deuocsid yn uwch na 3,000 rhan i'r filiwn wrth gael ei fesur ar lefel pennau'r ieir;
    - (ii) pan fo'r tymheredd y tu allan wrth gael ei fesur yn y cysgod yn uwch na 30°C, nad yw'r tymheredd y tu mewn yn uwch na'r tymheredd y tu allan o fwy na 3°C; a
    - (iii) pan fo'r tymheredd y tu allan islaw 10°C, nad yw'r lleithder cymharol cyfartaleddig pan gaiff ei fesur y tu mewn i'r cwt yn ystod cyfnod parhaus o 48 awr yn uwch na 70%.
- (i) a plan of the house including the dimensions of the surfaces occupied by the chickens;
  - (ii) ventilation and any relevant cooling and heating system (including their location), and a ventilation plan, detailing target air quality parameters (such as airflow, air speed and temperature);
  - (iii) feeding and watering systems (and their location);
  - (iv) alarm and backup systems in the event of a failure of any equipment essential for the health and well-being of the chickens;
  - (v) floor type and litter normally used; and
  - (vi) records of technical inspections of the ventilation and alarm systems;
- (b) keep up to date the documentation referred to in subparagraph (a);
  - (c) ensure that each house is equipped with ventilation and, if necessary, heating and cooling systems designed, constructed and operated in such a way that–
    - (i) the concentration of ammonia does not exceed 20 parts per million and the concentration of carbon dioxide does not exceed 3,000 parts per million, when measured at the level of the chickens' heads;
    - (ii) when the outside temperature measured in the shade exceeds 30°C, the inside temperature does not exceed the outside temperature by more than 3°C; and
    - (iii) when the outside temperature is below 10°C, the average relative humidity measured inside the house during a continuous period of 48 hours does not exceed 70%.

### **Diod a bwyd anifeiliaid**

6.–(1) Rhaid i ddalwyr diod fod wedi'u lleoli a bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn y fath fodd fel mai'r ychydig lleiaf sy'n gorlifo ohonynt.

(2) Rhaid i fwyd anifeiliaid fod ar gael naill ai yn barhaus neu ar adegau bwydo.

(3) Rhaid peidio â rhoi'r gorau i fwydo'r ieir â bwyd anifeiliaid fwy na 12 awr cyn amser disgwylidig eu cigydda.

### **Llaesodr**

7. Rhaid i bob iâr fedru cael at laesodr bob amser sy'n sych ac yn hyfriw ar yr wyneb.

### **Drink and feed**

6.–(1) Drinkers must be positioned and maintained in such a way that spillage is minimised.

(2) Feed must be either continuously available or meal fed.

(3) Feed must not be withdrawn from the chickens more than 12 hours before the expected slaughter time.

### **Litter**

7. All chickens must have permanent access to litter which is dry and friable on the surface.

## Gwyntyllu a gwresogi

8.–(1) Rhaid i'r gwyntyllu fod yn ddigonol i osgoi gorboethi.

(2) Rhaid i wyntyllu, o'i gyfuno â'r systemau awyru, fod yn ddigonol i gael gwared â gorleithder.

## Sŵn

9. Ym mhob cwt–

- (a) rhaid i lefel y sŵn fod ar ei isaf posibl; a
- (b) rhaid i ffaniau gwyntyllu, peirianwaith bwydo neu beirianwaith arall fod wedi eu hadeiladu a'u lleoli, ac yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw yn y fath fodd fel eu bod yn peri cyn lleied o sŵn ag sy'n bosibl.

## Golau

10.–(1) Rhaid bod golau ym mhob cwt a'i ddwystrer yn o leiaf 20 lux yn ystod y cyfnodau goleuo, o'i fesur ar lefel llygad yr adar ac sy'n goleuo o leiaf 80% o'r lle y gellir ei ddefnyddio.

(2) Caniateir gostyngiad dros dro o'r lefel hwnnw o oleuo pan fo angen yn dilyn cyngor milfeddygol.

(3) O fewn 7 diwrnod o'r adeg pan gaiff yr ieir eu rhoi yn y cwt a hyd 3 diwrnod cyn adeg ddisgwyliedig eu cigyddu, rhaid i'r golau ddilyn rhythm 24 awr a rhaid iddo gynnwys cyfnodau o dywyllwch sy'n para am gyfanswm o o leiaf 6 awr, gydag o leiaf un cyfnod di-dor o dywyllwch o o leiaf 4 awr, heb gynnwys cyfnodau pylu.

## Arolygu

11.–(1) Rhaid i geidwad sicrhau bod yr holl ieir a gedwir ar y daliad yn cael eu harolygu o leiaf ddwywaith y dydd.

(2) Rhaid talu sylw arbennig i arwyddion sy'n dynodi gostyngiad yn safon iechyd neu les yr anifeiliaid.

(3) Rhaid i ieir sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol neu sy'n dangos arwyddion amlwg o afiechyd (gan gynnwys y rheini sy'n cael anhawster i gerdded, rhai â dropsi'r bol difrifol neu rhai sydd â chamffurfiadau difrifol), ac sy'n debygol o ddiodef, gael triniaeth briodol neu gael eu difa'n syth.

## Glanhau

12. Wedi diboblogi cwt yn derfynol a chyn cyflwyno haid newydd–

- (a) rhaid glanhau'n llwyr a diheintio unrhyw ran o gwt, ac unrhyw gyfarpar neu declyn a fu mewn cysylltiad â'r ieir; a

## Ventilation and heating

8.–(1) Ventilation must be sufficient to avoid overheating.

(2) Ventilation, in combination with heating systems, must be sufficient to remove excessive moisture.

## Noise

9. In all houses–

- (a) the sound level must be minimised; and
- (b) ventilation fans, feeding machinery or other equipment must be constructed, placed, operated and maintained in such a way that they cause the least possible amount of noise.

## Light

10.–(1) All houses must have lighting with an intensity of at least 20 lux during the lighting periods, measured at bird eye level and illuminating at least 80% of the usable area.

(2) A temporary reduction from that lighting level is permitted where necessary following veterinary advice.

(3) Within 7 days from the time when the chickens are placed in the house and until 3 days before the expected time of slaughter, the lighting must follow a 24-hour rhythm and include periods of darkness lasting at least 6 hours in total, with at least one uninterrupted period of darkness of at least 4 hours, excluding dimming periods.

## Inspection

11.–(1) A keeper must ensure that all chickens kept on the holding are inspected at least twice a day.

(2) Special attention must be paid to signs indicating a reduced level of animal health or welfare.

(3) Chickens that are seriously injured or show evident signs of health disorder (including those having difficulties in walking, severe ascites or severe malformations), and are likely to suffer, must receive appropriate treatment or be culled immediately.

## Cleaning

12. After the final depopulation of a house and before a new flock is introduced–

- (a) any part of a house, and any equipment or utensil, which has been in contact with chickens must be thoroughly cleaned and disinfected; and

(b) rhaid clirio ymaith bob llaesodr a gosod llaesodr lân.

(b) all litter must be removed and clean litter provided.

### Cadw cofnodion

13.–(1) Rhaid i geidwad gadw cofnod ar gyfer bob cwt–

- (a) o nifer yr ieir a gyflwynir iddo;
- (b) o'r lle y gellir ei ddefnyddio;
- (c) o groesryw neu frîd yr ieir (os yw'n hysbys);
- (ch) o nifer yr ieir a gafwyd yn farw, gan nodi achosion y farwolaeth (os yw'n hysbys), ynghyd â nifer yr ieir a gafodd eu difa, gyda'r achos, ar bob arolygiad; a
- (d) o nifer yr ieir sydd ar ôl yn yr haid wedi symud ieir ymaith i'w gwerthu neu i'w cigydda.

(2) Rhaid dal gafael ar y cofnod am o leiaf 3 blynedd.

### Record keeping

13.–(1) A keeper must maintain, for each house, a record of–

- (a) the number of chickens introduced;
- (b) the usable area;
- (c) the hybrid or breed of the chickens (if known);
- (d) the number of chickens found dead, with an indication of the causes (if known), as well as the number of chickens culled with cause, on each inspection; and
- (e) the number of chickens remaining in the flock following the removal of chickens for sale or slaughter.

(2) The record must be retained for at least 3 years.

## RHAN 3

### Monitro a gwaith dilynol yn y lladd-dy

#### Gwybodaeth y gadwyn fwyd ac ieir sy'n farw'n cyrraedd

14.–(1) At ddibenion Adran III (gwybodaeth y gadwyn fwyd) o Atodiad II i Reoliad 853/2004, caiff y gyfradd farwolaeth ddyddiol a'r gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus a chroesryw neu frîd yr ieir o haid gyda dwysedd stocio uwch na 33 cilogram i'r m<sup>2</sup> o'r lle y gellir ei ddefnyddio eu trin fel gwybodaeth iechyd bwyd berthnasol.

(2) Rhaid i weithredydd busnes bwyd sy'n rhedeg lladd-dy–

- (a) o dan arolygiaeth y milfeddyg swyddogol, gofnodi nifer yr ieir o haid o'r fath sy'n farw pan fyddant yn cyrraedd y lladd-dy; a
- (b) rhoi'r wybodaeth honno i'r milfeddyg swyddogol os gofynnir amdani.

(3) Yn y paragraff hwn–

ystyr "y gyfradd farwolaeth ddyddiol" ("*daily mortality rate*") yw nifer yr ieir mewn cwt sydd wedi marw ar yr un diwrnod gan gynnwys y rheini a gafodd eu difa naill ai oherwydd afiechyd neu am resymau eraill, wedi ei rannu wrth nifer yr ieir sydd yn y cwt ar y diwrnod hwnnw, a'i luosi wrth 100;

ystyr "y gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus" ("*cumulative daily mortality rate*") yw cyfanswm y cyfraddau marwolaeth dyddiol.

## PART 3

### Monitoring and follow-up at the slaughterhouse

#### Food chain information and chickens dead on arrival

14.–(1) For the purposes of Section III (food chain information) of Annex II to Regulation 853/2004, the daily mortality rate and cumulative daily mortality rate and the hybrid or breed of chickens from a flock with a stocking density in excess of 33 kilograms per m<sup>2</sup> of usable area is treated as relevant food safety information.

(2) A food business operator operating a slaughterhouse must–

- (a) under the supervision of the official veterinarian, record the number of chickens from such a flock that are dead on arrival at the slaughterhouse; and
- (b) provide that information on request to the official veterinarian.

(3) In this paragraph–

"cumulative daily mortality rate" ("*y gyfradd farwolaeth ddyddiol gronnus*") means the sum of daily mortality rates;

"daily mortality rate" ("*y gyfradd farwolaeth ddyddiol*") means the number of chickens which have died in a house on the same day including those that have been culled either because of disease or because of other reasons, divided by the number of chickens present in the house on that day, multiplied by 100.

## Canfod amodau lles gwael a gwaith dilynol

15.–(1) Rhaid i filfeddyg swyddogol sy'n cyflawni rheolaethau o dan Reoliad 854/2004 mewn cysylltiad ag ieir werthuso canlyniadau'r arolygiad post-mortem er mwyn canfod arwyddion posibl o amodau lles gwael ar eu daliad neu yn eu cwt gwreiddiol.

(2) Os yw cyfradd marwolaeth yr ieir neu ganlyniadau'r arolygiad post-mortem yn gyson ag amodau lles anifeiliaid gwael, rhaid i'r milfeddyg swyddogol hysbysu'r data hwnnw i geidwad yr ieir hynny ac i Weinidogion Cymru yn ddi-oed."

---

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## Identification of poor welfare conditions and follow-up

15.–(1) An official veterinarian conducting controls under Regulation 854/2004 in relation to chickens must evaluate the results of the post-mortem inspection to identify possible indications of poor welfare conditions in their holding or house of origin.

(2) If the mortality rate of the chickens or the results of the post-mortem inspection are consistent with poor animal welfare conditions, the official veterinarian must communicate the data to the keeper of those chickens and to the Welsh Ministers without delay."

---

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.